



Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 351 – 15 Rhagfyr 2011
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2011.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 350

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 350.

Adroddiad Fforwm Cyfryngau Newydd – Cyhoeddwyd yr adroddiad a lanswyd ymgyngoriad cyhoeddus gyda dyddiad cau ar ddydd Gwener, 6 Ionawr 2012.

Tendr Archwilwyr Allanol - Nodwyd bod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn fodlon â phenodiad cwmni Grant Thornton fel archwilwyr allanol yn dilyn y broses dendro.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad.

Noson Gwylwyr yn Wrecsam - Un o'r prif bwyntiau a godwyd oedd colli signal S4C a BBC Cymru/Wales yn ardal Wrecsam yn ddiweddar. Mae'r gwaith yn parhau i geisio datrys y broblem.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad ysgrifenedig.

DCMS - cyfeiriodd at y ddogfen ymgyngorol "Consultation on proposals to amend S4C's Governance arrangements" ym mhapurau'r Awdurdod. Gohiriwyd yr ymgyngoriad tan ddechrau mis Ionawr. Un effaith posibl o hynny ar S4C yw ar amserlen penodi aelodau newydd i'r Awdurdod. Sefydlwyd timau negydu mewnol i ymgymryd â'r gwaith o gyd-drafod gyda'r BBC.

TAC - Fe fydd y Prif Weithredwr yn cyfarfod ag Iestyn Garlick ar 10 Ionawr 2012. Disgwylir etholiadau i Gyngor TAC cyn hir.

4. Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu

Dyweddodd GR fod cyrhaeddiad wythnosol S4C yng Nghymru hyd yma i fyny 6,000 o gymharu â'r un adeg yn 2010.

Cyflwynodd GR ei adroddiad am raglenni mis Rhagfyr.

Cafwyd trafodaeth am y canlynol yn benodol :

Trafodwyd perfformiad yr □yl Cerdd Dant eleni o gymharu â darllediadau o wyliau cenedlaethol eraill. Nodwyd bod cystadleuaeth o du rhaglenni fel **X Factor** ac **I'm a Celebrity**.

Mae **Gwaith/Cartref** wedi dod i ben a bu'r ymateb yn bositif. Cafwyd llawer o sôn am y gyfres yng nghyfarfod y Noson Gwylwyr yn Wrecsam.

Holwyd pam fod ffigyrau gwyllo **Pobol y Cwm** yn is ar nos Wener a nodwyd bod ambell i gêm rygbi ar BBC2 yng Nghymru wedi perfformio'n dda ar nos Wener ym mis Tachwedd gan ddenu gwylwyr oddi ar **Pobol y Cwm**.

Cyfeiriodd GR at ddau dendr a gyhoeddwyd, sef y Tendr i Ddysgwyr a wobrwyyd i gwmni Fflic a thendr ar gyfer y Sioe Gylchgrawn ar nos Wener a wobrwyyd i gwmni Tinopolis.

Rhoddodd adborth ar Ffenestr Gomisiynu 2 gan nodi fod 700 o syniadau wedi dod i law. Hysbysir y cwmnïau annibynnol ddydd Mawrth nesaf o'r rhaglenni sydd yn dal dan ystyriaeth. Bydd cyfle i roi adborth i'r cwmnïau.

5. Materion Eraill

Sgrîn - Dosbarthwyd copiâu o Sgrîn i'r aelodau. Nododd GLL mai'r rhifyn Nadolig oedd y rhifyn olaf o'r cylchgrawn oherwydd y toriadau i gyllid S4C.

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Gwifren
- Adroddiad Cyllid
- Adroddiad o'r Bwrdd Masnachol
- Adroddiad o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg
- Adroddiad o'r Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth